| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH |
| **DYDDIAD** | 17 TACHWEDD, 2020 |
| **PWNC** | AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH. |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad o'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma a chynlluniau'r dyfodol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor: <br>• Dderbyn yr adroddiad a chefnogi cyfeiriad y rhaglen waith. |
| **AWDUR** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith |

CEFNDIR

1. Bydd aelodau'r pwyllgor yn cofio fod yr is-grŵp amrywiaeth mewn democratiaeth wedi cwrdd yn rheolaidd ers cyn etholiadau 2017 er mwyn ceisio annog mwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll fel Cynghorydd. Mae cylch gorchwyl y grŵp wedi ei nodi yn **Atodiad 1** er gwybodaeth. Mae 3 maes penodol y mae'r grŵp yn edrych arno, sef Pobl Ifanc, Merched ac Anabl.

<u>Pobl Ifanc.</u>

2. Mae'r newid deddfwriaethol yn golygu y gall pobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru o 2021 ymlaen ac etholiadau Llywodraeth Leol o 2022 ymlaen. Mae'r newid deddfwriaethol wedi dod a chyfleon yn ei sgil.

3. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn arwain gwaith y Tîm Etholiadau ac mae'r prosiect, sydd wedi ei hariannu gan y Llywodraeth, wedi ei hadnabod o fewn Cynllun y Cyngor. Sefydlwyd grŵp gweithredol i gyd gordio cynllun gwaith sydd wedi ei anelu at uchafu cofrestru ymhlith grwpiau sydd yn derbyn etholfraint o'r newydd ond hefyd edrych ar faterion mynediad wrth bleidleisio a hyrwyddo cymryd rhan ymhlith grwpiau sydd yn cael eu tan gynrychioli ar y gofrestr etholwyr.

4. Wrth weithio gyda thîm etholiadau'r Cyngor a'r gwasanaeth ieuenctid, bwriedir clymu gwaith hyrwyddo pobl ifanc i gymryd diddordeb mewn democratiaeth gyda'r gwaith ymarferol o'u cynorthwyo i gofrestru i bleidleisio. Mae swyddog dros dro am gael ei gyflogi trwy'r arian grant dan arweiniad y Gwasanaeth Etholiadau er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith pwysig yma.

5. Yn sgil sefyllfa covid-19 bydd yn rhaid gweithio mewn ffordd gwahanol i'r bwriad gwreiddiol o gynnal digwyddiadau (rhyw fath o ffeiriau) mewn ysgolion a chynnal sesiynau yn siambr y Cyngor. Fodd bynnag, bydd y gwaith yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi digwydd o ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn gwahanol ysgolion.

Merched.

6. Mae ffactorau cyffredin rhwng y gwaith hybu ac annog merched mewn democratiaeth a’r prosiect corfforaethol i hybu merched mewn arweinyddiaeth yn swyddi’r Cyngor. Nod y prosiect corfforaethol Merched mewn Arweinyddiaeth yw hybu’r nifer o ferched sy’n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu’r amodau, amgylchedd gwaith ac annog merched i ymgymryd â’r gwaith i’r dyfodol. Yn cyd-redeg hefo hyn mae’r prosiect is-grŵp amrywiaeth mewn democratiaeth, sy’n ceisio hybu pobl o amrywiol gefndiroedd i rôl arweiniol fel Cynghorydd – gyda merched yn un o’r grwpiau targed.

7. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd gweithdai i ferched a dynion sy’n staff y Cyngor er mwyn cyflwyno’r prosiect i’r gweithlu a chanfod barn am y pwnc. Nodwyd yn ystod y gweithdy y byddai cyfleoedd i ferched ddod at ei gilydd i drafod a chymysgu mewn amgylchedd anffurfiol o fudd. O ganlyniad rydym wedi trefnu sesiynau i staff, ac hefyd wedi ymestyn y sesiynau i chi fel Cynghorwyr.

8. Cynhelir sesiwn rhithiol ‘sgwrs a phaned’ i Gynghorwyr benywaidd Gwynedd ar y 10fed a’r 11eg o Dachwedd er mwyn dysgu o brofiadau cynghorwyr dros y cyfnod a fu, gan gymryd y cyfle hefyd i ystyried ydi’r newidiadau yn sgil y pandemig am roi cyfleon ychwanegol i fod yn meddwl am sut i ddenu mwy o ferched i fod yn sefyll mewn etholiadau lleol.

9. Yn ychwanegol i hyn, cynhelir sesiwn hyfforddiant ddiwedd Tachwedd i holl aelodau’r Cyngor ar Syndrom Dieithryn (imposter syndrome). Tueddiad seicolegol sy’n gwneud i bobl amau eu gallu, eu dawn neu lwyddiant eu hunain ydi’r ffenomenon neu syndrom hwn. Dyma’r weithgaredd ddiweddaraf sydd wedi deillio o’r prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth ac mae’n dilyn llwyddiant y gweithdai a gynhaliwyd llynedd a’r sesiynau ‘sgwrs dros banad’ ym mis Medi eleni.

Rhaglen waith

10. Mae’n debyg fod dwy brif elfen yn rhaglen gwaith yr is-grŵp amrywiaeth. Yr elfen gyntaf yw parhau gyda’r gwaith i annog mwy o bobl i sefyll yn etholiad llywodraeth leol 2022. Mae pwyslais y rhaglen waith sy’n cael ei datblygu ar gyfathrebu dealladwy ac aml gyda’r grwpiau targed ac yn gyffredinol.

11. Yn ail, gydag ychydig dros 18 mis hyd etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, mae’n amserol i gychwyn cynllunio a gweithio ar y paratoadau angenrheidiol. Un o’r gwersi a ddysgwyd o 2017 oedd yr angen i gychwyn paratoi yn ddigon buan.

12. Mae prif elfennau y rhaglen waith wedi ei nodi isod:

Annog pobl sefyll yn etholiadau Llywodraeth Leol 2022

- Cyfathrebu negeseuon syml yn aml – i’r grwpiau targed (merched, yr anabl, ieuenctid) ac yn gyffredinol i bobl Gwynedd
- Cysylltu gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol i godi eu ymwybyddiaeth i’r gwaith sy’n digwydd a’r angen i’r grwpiau gwleidyddol chware rôl
- Diweddaru’r safle we gyda gwybodaeth
- Cynnal sesiynau “holi ac ateb” i ddarpar ymgeiswyr

Paratoi at Etholiadau 2022 – trefniadau ymarferol

- Dysgu gwersi o etholiadau 2017 a 2012 (siarad gydag Aelodau a swyddogion)
- Datblygu trefniadau diwrnod etholiad
- Datblygu trefniadau anwytho aelodau newydd – tymor byr a thymor canolig, gan adnabod a blaenoriaethu gwybodaeth angenrheidiol, hyfforddiant, cefnogaeth technoleg a threfniadau ymarferol.

13. Gofynnir i’r pwyllgor am gefnogaeth i gyfeiriad y rhaglen waith

**ATODIAD 1**

# Cylch Gorchwyl

## Amrywiaeth mewn Democratiaeth
## (Is-grŵp o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **Enw’r Grŵp prosiect**: Amrywiaeth mewn Democratiaeth

2. **Pwrpas**:

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth y Cyngor wedi adnabod ers tro nad yw Aelodaeth o Gynghorwyr Etholedig Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gymdeithas y mae’n ei chynrychioli. Yn benodol, mae anghysonder mawr rhwng cyfran yr aelodau etholedig a chyfran y boblogaeth yn y meysydd a ganlyn:

- Merched
- Pobl Ifanc
- Pobl Anabl

Yn ogystal, mae Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-2020 wedi adnabod Amcan benodol (Amcan 3) sef "Creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig". Mae’n debygol y bydd yr amcan yma yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer cynllun 2020-2024 hefyd.

Sefydlwyd y Grŵp yn wreiddiol i adolygu trefniadau wrth ystyried etholiadau 2017. Pwrpas y Grŵp yw ceisio creu amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn Gynghorydd etholedig.

Bu’r gwaith gwreiddiol yn canolbwyntio ar:

- Adnabod y rhwystrau oedd yn bodoli oedd yn atal unigolion rhag sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol
- Rhannu gwybodaeth yn ehangach o sut i sefyll a beth mae hynny yn ei olygu (crëwyd man arbennig ar y safle we i ateb cwestiynau yn glir a syml, a chrëwyd fideo i esbonio rôl Cynghorydd a gwaith y Cyngor).
- Gyrru cyfres o negeseuon trwy gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd o etholiadau a’r angen am fwy o bobl o wahanol gefndiroedd i sefyll
- Cynnal cyfres o nosweithiau agored ar gyfer ateb cwestiynau darpar ymgeiswyr wrth iddynt ystyried sefyll

Ymhellach, mae’r grwp (dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth) wedi:

- cynnal cyfres o hyfforddiant “codi ymwybyddiaeth o ragfarn diarwybod” ymysg Aelodau Etholedig

- peilota trefniadau i gynnal sesiynau i ddisgyblion ysgolion cynradd i gael blas ar ddemocratiaeth trwy ymweld â Siambr y Cyngor

3. **Amcanion y Grŵp**:

   Bydd y Grŵp yn parhau i ymdrechu at gyfrannu at geisio hybu mwy o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd i sefyll etholiad ar gyfer Llywodraeth Leol. I'r perwyl hwn felly bydd angen

   - Llunio cynllun gweithredu i geisio ymateb i'r 3 maes blaenoriaeth

4. **Cyfansoddiad y Grŵp**

Mae'r Grwp wedi ei sefydlu o aelodau o'r Pwyllgor Gwasanethau Democratiaeth fel a ganlyn:

Cynghorwyr:
Anne Lloyd Jones
Dewi Owen (Cadeirydd yr is-grŵp)
Cai Larsen
Annwen Daniels
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Mair Rowlands

Swyddogion:
Sion Gwynfryn Williams (neu aelod o'r tîm)
Vera Jones

5. **Trefniadau gweithredu'r Grŵp**
   - Bydd y Grŵp prosiect yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd y Grŵp;
   - Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp yn ôl y galw; trwy ddarpariaeth fideo gynhadledd
   - Rhoddir cyfle i aelodau'r grŵp ychwanegu eitemau i'w trafod ar yr agenda cyn bob cyfarfod;
   - Caiff pwyntiau gweithredu eu nodi a'u cylchredeg yn dilyn pob cyfarfod.